




## Iesu'n ymddangos i'r disgyblion, ac wedyn i Tomos

Marc 16: 9-18; Luc 24: 33-49;  
Ioan 20: 19-31



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o [www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org) ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Marc 16: 9-18; Luc 24: 33-49; Ioan 20: 19-31	 A digital illustration showing Jesus in a white robe with a sash, standing in a room with several disciples. One disciple, Thomas, is in the foreground, looking towards Jesus. The scene is set in a room with arches in the background. A 'Free Bible Images' logo is overlaid on the image, along with the text 'Mark 16:9-18 Luke 24:33-49 John 20:19-31' and 'JESUS APPEARS TO THE DISCIPLES THEN THOMAS'. The website address 'www.freebibleimages.org' is at the bottom.	
1 Pan ddwedodd Mair Magdalen fod Iesu'n fyw a'i bod hi wedi ei weld, doedd y disgyblion ddim yn ei chredu. Dangosodd ei hun wedyn, mewn ffurf wahanol, i ddau o'i ddilynwyr oedd ar eu ffordd o Jerwsalem i Emaus. Dyma nhw hefyd yn bryso'n ôl i Jerwsalem i ddweud wrth y lleill; ond doedden nhw ddim yn eu credu nhw chwaith. Y noson honno, sef nos Sul, roedd y disgyblion gyda'i gilydd. Roedd y drysau wedi eu cloi am fod ganddyn nhw ofn yr arweinwyr Iddewig.	 A digital illustration of Jesus and two disciples walking on a path. Jesus is in the center, wearing a white robe with a sash. The two disciples are on either side of him, one in a blue robe and the other in a yellow robe. They appear to be in conversation. The background shows a simple landscape with a building in the distance.	
2 Roedden nhw'n dal i siarad am y peth pan ddaeth Iesu a sefyll yn y canol. "Shalôm!" (Heddwch i chi!) meddai wrthyn nhw. Roedden nhw wedi cael braw. Roedden nhw'n meddwl eu bod nhw'n gweld ysbryd.	 A digital illustration showing Jesus in a white robe with a sash, standing in a room with several disciples. One disciple, Thomas, is in the foreground, looking towards Jesus. The scene is set in a room with arches in the background. A 'Free Bible Images' logo is overlaid on the image, along with the text 'Mark 16:9-18 Luke 24:33-49 John 20:19-31' and 'JESUS APPEARS TO THE DISCIPLES THEN THOMAS'. The website address 'www.freebibleimages.org' is at the bottom.	

- 
- 3 Ond dyma Iesu'n gofyn iddyn nhw, "Beth sy'n bod? Pam dych chi'n amau pwy ydw i? Edrychwch ar fy nwylo a'm traed i. Fi sydd yma go iawn! Cyffyrddwch fi. Byddwch chi'n gweld wedyn mai dim ysbryd ydw i. Does gan ysbryd ddim corff ag esgyrn fel hyn!"



- 
- 4 Roedd yn dangos ei ddwylo a'i draed iddyn nhw wrth ddweud y peth. Roedden nhw'n teimlo rhyw gymysgedd o lawenydd a syfrdandod, ac yn dal i fethu credu'r peth. Felly gofynnodd Iesu iddyn nhw, "Oes gynnoch chi rywbeth i'w fwyta yma?"



- 
- 5 Dyma nhw'n rhoi darn o bysgodyn wedi ei goginio iddo, a dyma Iesu'n ei gymryd a'i fwyta o flaen eu llygaid.



- 
- 6 Wedyn esboniodd Iesu iddyn nhw beth mae'r ysgrifau sanctaidd yn ei ddweud, er mwyn iddyn nhw ddeall. "Mae'r ysgrifau yn dweud fod y Meseia yn mynd i ddiodef a marw, ac yna dod yn ôl yn fyw ddeuddydd wedyn."



- 
- 7 Dwedodd Iesu bod rhaid cyhoeddi'r neges yma yn Jerwsalem a thrwy'r gwledydd i gyd: fod pobl i droi cefn ar eu pechod a bod Duw'n barod i faddau iddyn nhw. Dwedodd Iesu wrth y disgyblion, "Chi ydy'r llygad-dystion sydd wedi gweld y cwbl! Felly dw i'n mynd i anfon beth wnaeth fy Nhad ei addo i chi — arhoswch yma yn y ddinas nes i'r Ysbryd Glân ddod i lawr a'ch gwisgo chi gyda nerth."



- 
- 8 Doedd Tomos ddim yno pan wnaeth Iesu ymddangos. Dyma'r lleill yn dweud wrtho, "Dŷn ni wedi gweld yr Arglwydd!" Ond ei ymateb oedd, "Nes i mi gael gweld ôl yr hoelion yn ei arddyrnau, a rhoi fy mys yn y briwiau hynny a rhoi fy llaw i mewn yn ei ochr, wna i byth gredu'r peth!"



- 
- 9 Wythnos yn ddiweddarach roedd y disgyblion yn y tŷ eto, a'r tro hwn roedd Tomos yno gyda nhw. Er bod y drysau wedi eu cloi, daeth Iesu i mewn a sefyll yn y canol a dweud, "Shalôm!"



- 
- 10 Trodd at Tomos a dweud, "Edrych ar fy arddyrnau; rho dy fys i mewn ynddynd nhw. Estyn dy law i'w rhoi yn fy ochr i. Stopia amau! Creda!"



- 
- 11 A dyma Tomos yn  
dweud, "Fy Arglwydd  
a'm Duw!"



- 
- 12 "Rwyt ti wedi dod i  
gredu am dy fod wedi fy  
ngweld i," meddai Iesu  
wrtho. "Mae'r rhai fydd  
yn credu heb weld yn  
mynd i gael eu  
bendithio'n fawr."



- 
- 13 Cyfieithwyd gan  
[www.beibl.net](http://www.beibl.net)



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed  
by FreeBibleImages for free download under the terms of the  
Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

[www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org)

---